

# Taith Gylchol Cas-gwent i Dyndyrn



Castell Casgwent

## Manylion y llwybr

Taith gerdded o Gas-gwent a'i chastell braf ar hyd Llwybr Dyffryn Gwy i Dyndyrn a'i hadfeilion abaty, gan ddychwelyd ar hyd Llwybr Clawdd Offa.

| | |
|---|---|
| **Pellter:** | 13 milltir / 21 km |
| **Man cychwyn:** | Gorsaf drenau Cas-gwent |
| **Cyfeirnod grid y man cychwyn:** | ST 53641 93689 |
| **Disgrifiad what3words y man cychwyn:** | cofnodwn.affaith.disgrifiad |

## Cychwyn

Dechreuwch yng ngorsaf drenau Cas-gwent a dilynwch y ffordd oddi wrthi. Cerddwch yn syth trwy groesffordd i gyrraedd goleuadau traffig a throwch i'r chwith i fynd trwy isffordd o dan brif ffordd brysur. Dringwch y grisiau a throwch i'r dde i gerdded tuag at eglwys plwyf Cas-gwent, neu Eglwys Priordy'r Santes Fair. Sefydlwyd hon gan Urdd Sant Bened (y Benedictiaid) yn 1072. Yn dilyn arwydd, trowch i'r chwith am ganol y dref, gan gyrraedd Elusendai Powis. Trowch i'r dde i lawr Bridge Street i gyrraedd y Three Tuns Inn, yna trowch i'r chwith tuag at Gastell Cas-gwent. Mae croeso i chi ymweld â'r castell, a sefydlwyd yn 1067; fel arall, trowch i'r chwith ychydig cyn ei gyrraedd, gan ddilyn llwybr i ddyffryn Castle Dell.

Pasiwch garreg sy'n coffáu Llwybr Dyffryn Gwy, sy'n rhedeg am 136 milltir (219 km) i darddiad Afon Gwy, ar ucheldiroedd Pumlumon yng nghanolbarth Cymru. Dilynwch y llwybr i fyny drwy Castle Dell, gan fynd drwy gatiau haearn ar y brig. Trowch i'r dde ar hyd ffordd, gan fynd heibio Ysgol Gynradd The Dell. Ymhellach i fyny'r ffordd, trowch i'r dde, gan ddilyn yr arwydd ar gyfer Llwybr Dyffryn Gwy, ar hyd y ffordd fynediad i Ysgol Cas-gwent a Chanolfan Hamdden Monlife. Cerddwch yn syth ymlaen trwy faes parcio i ddod o hyd i lwybr tarmac ag arwyddbyst yn arwain i lawr i goetir. Mae'r llwybr wedi'i ffensio ar y ddwy ochr, gan gyrraedd bwlch mewn wal gerrig yn y pen draw lle mae bwrdd gwybodaeth yn esbonio am y Piercefield Walks, a osodwyd yn y 18fed ganrif ac a oedd yn cael eu hedmygu'n fawr gan artistiaid a thwristiaid cynnar.

Ewch i lawr rhes o risiau pren i gyrraedd golygfan sy'n cynnig cipolwg ar Afon Gwy. Parhewch drwy'r coed cymysg hyfryd, gan gyrraedd cyn-olygfan o'r enw The Platform. Mae hwn bellach mewn coetir trwchus ac nid yw bellach yn cynnig golygfeydd. Mae'r llwybr yn culhau'n ddiweddarach, ond mae'n dal yn amlwg, gan ddringo drwy'r coed a mynd heibio lloches o'r enw Y Groto. Mae hon wedi'i hadeiladu i mewn i arglawdd bryngaer, sy'n anodd iawn ei wahaniaethu yn yr isdyfiant.

Mae'r llwybr yn mynd heibio Clogwyni Piercefield ac yn ddiweddarach yn mynd o dan ogof fechan cyn fforchio

# Llwybr Glyndŵr **TAITH BYR**
# Taith Gylchol Cas-gwent i Dyndyrn



© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100019741

wrth ddau bostyn pren. Ewch i lawr i'r dde ychydig a chyrhaeddir golygfan wych wrth ymyl Ogof y Cawr. I barhau â'r daith, ewch drwy'r ogof (nid oes angen tortsh) a dilynwch y llwybr ymlaen ar draws llethr serth, coediog. Yn y pen draw, mae'r llwybr yn croesi nant fechan, yn dringo grisiau ac yn cyrraedd maes parcio. Croeswch ffordd yr A466 i barhau i fyny llwybr coetir ar yr ochr arall.

Cyrhaeddir man lle mae arwydd Llwybr Dyffryn Gwy ar y chwith. (Mae troi i'r dde yn golygu dringfa serth a garw i fyny 365 o risiau. Cadwch yr her honno ar gyfer ymweliad yn y dyfodol.) Cerddwch i fyny drwy'r coed, gan ddilyn arwydd i'r dde yn fuan a dringo'n fwy serth i gyrraedd maes parcio bach. Peidiwch â mynd i mewn iddo, ond trowch i'r dde eto a daliwch ati i ddringo igam-ogam mewn troeon ysgubol ar draws y llethr coediog. Pan fydd y llwybr yn gwastatáu uwchben Clogwyn Wynd, mae ychydig o risiau i lawr i'r dde yn arwain at olygfan Nyth yr Eryr a golygfa wych o Ddyffryn Gwy.

Ewch yn ôl i fyny'r grisiau a pharhau ar hyd llwybr y coetir, sy'n gul ar y cyfan ond yn amlwg ac wedi'i sathru'n dda. Weithiau, mae'n rhedeg yn agos at ymyl y coed, gan edrych allan i'r caeau cyfagos. Ymhen ychydig, ar ôl disgyn yn raddol, gwyliwch am fforch yn y llwybr, ac edrychwch am ddisg marcio ar goeden sy'n nodi'r llwybr i'r dde. Mae disg arall ar goeden yn ddiweddarach yn nodi dechrau disgyniad serth ar draws creigiau a gwreiddiau coed. Ewch drwy giât ar ymyl y coetir a throwch i'r chwith i gerdded i fyny'r allt yn ymyl cae. Pan fydd ffens y goedwig yn troi ychydig i'r chwith, gadewch hi a cherddwch yn syth ar draws y cae, gan edrych ymlaen i weld giât fechan sy'n rhoi mynediad i goetir arall.

Ewch drwy'r giât a throwch i'r chwith. Er bod y llwybr yn gul, dilynwch ef wrth iddo godi a disgyn ar draws llethr coediog iawn, ac yn y diwedd mae'n ymuno â thrac garw ar lawr dyffryn. Trowch i'r dde a cherdded i lawr y trac, gan gymryd gofal ar rannau creigiog a charegog. Mae'r trac yn arwain i lawr at ffordd fynediad fferm lle mae arwydd yn nodi Llwybr Dyffryn Gwy yn syth ymlaen. Pan gyrhaeddir cyffordd ar bwys rhai tai, naill ai ewch yn syth ymlaen ar hyd ffordd fach i gyrraedd ffordd yr A466 yn Nhyndyrn, neu trowch i'r dde i gerdded i lawr i Abaty Tyndyrn, a sefydlwyd gan y Sistersiaid yn 1131, ac yna dilynwch ffordd yr A466 i mewn i'r pentref. Y naill ffordd neu'r llall, mae lluniaeth ar gael ac mae bysiau rhif 69 yn rhedeg bob dydd i Gas-gwent a Threfynwy, ac eithrio dydd Sul.

Dilynwch y ffordd fawr heibio Abbey Mill a throwch i'r dde i groesi pont dros Afon Gwy. Gelwir hyn yn Bont Tyndyrn, Pont Gwifrwaith, neu Bont yr Hen Dramffordd. Agorodd yn 1876 fel rheilffordd gangen. Pan roddodd peiriannau ager y gorau i'w defnyddio, roedd tramiau ceffyl yn ei defnyddio. Y dyddiau hyn, fe'i defnyddir gan gerddwyr a beicwyr. Mae croesi'r bont yn arwain o Gymru (Sir Fynwy) i Loegr (Swydd Gaerloyw). Dilynwch yr hen lein ymlaen nes bod llwybr amlwg iawn yn dringo ar y chwith, gyda phalmant carreg garw i ddechrau, gan ildio'n fuan i greigwely ar lethr coediog.

Cyrraedd arwyddbost tair ffordd a throwch i'r dde fel y nodir ar gyfer Pulpud y Diafol (Devil's Pulpit). Trowch i'r dde eto wrth y gyffordd nesaf ag arwyddbost, hefyd fel y nodir ar gyfer Pulpud y Diafol. Trowch i'r chwith wrth y gyffordd nesaf fel y dangosir gan bostyn sy'n dangos saeth gyfeiriadol. Ar ôl dringo'n raddol, mae'r llwybr yn mynd yn fwy serth ac mae grisiau crai wedi'u torri i mewn i'r creigwely calchfaen. Mae'r llwybr yn gwastatáu ac yna'n ymuno â thrac. Trowch i'r dde, ac yn fuan wedyn trowch i'r chwith ar hyd llwybr arall, eto fel y nodir ar gyfer Pulpud y Diafol. Mae'r llwybr yn dringo'n raddol i ddechrau, yna'n mynd yn serth, gan gyrraedd arwydd tair ffordd yn y pen draw lle mae'n ymuno â Llwybr Clawdd

# Llwybr Glyndŵr **TAITH BYR**
# Taith Gylchol Cas-gwent i Dyndyrn

Offa (sylwch ar y logos mes sy'n nodi'r llwybr). Gellir canfod y clawdd ei hun fel gwrthglawdd yn rhedeg yn gyfochrog â'r llwybr yn y coed.

Trowch i'r dde i ddilyn Llwybr Clawdd Offa, sy'n codi ac yna'n disgyn yn raddol. Ar ôl ychydig o ddringfa, croeswch bont droed fechan, dringwch ychydig o risiau, a throwch i'r dde i ddilyn arwydd ar hyd llwybr gwastad. Ewch heibio i Bulpud y Diafol, sy'n frigiad o graig gyda golygfa o Ddyffryn Gwy ac Abaty Tyndyrn. Mae'n debyg y byddai'r Diafol yn pregethu o'r graig ac yn ceisio troi'r mynachod oddi wrth eu gweithredoedd cyfiawn. Parhewch ar hyd y llwybr, gan godi a disgyn, nes bod rhes o risiau pren yn cymryd y llwybr oddi wrth y clawdd ei hun er mwyn osgoi ei niweidio. Dilynwch y llwybr ymlaen ac yn ddiweddarach mae'n disgyn i drac lle mae hysbysiad am y clawdd.

Trowch i'r chwith a dilynwch y trac, gan fynd drwy ran o Glawdd Offa sydd wedi'i chau er mwyn ei hamddiffyn. Ar ôl cyrraedd ffordd fynediad i chwarel, dilynwch arwydd am Lwybr Clawdd Offa i barhau ar hyd llwybr coetir. Mae hyn yn amlwg ac yn ddiweddarach yn mynd heibio i arwyddbost tair ffordd, hysbysiad arall am y clawdd, a giât mochyn. Dilynwch lwybr wedi'i ffensio drwy'r coetir i gyrraedd ffordd y B4228. Trowch i'r dde i gerdded ar hyd y ffordd, gan gadw i'r dde i wynebu traffig sy'n dod tuag atoch, yna dilynwch ddarn o balmant ar y chwith cyn dychwelyd i ochr dde'r ffordd.

Ewch heibio cyffordd â Boughspring Lane, yna, yn fuan wedyn, edrychwch am arwyddbost, grisiau a giât mochyn ar y chwith. Ewch drwy'r giât hon ac un arall, yna cerddwch ar draws cae gyda golygfeydd o Aber Afon Hafren. Ewch drwy giât mochyn arall a cherdded wrth ochr gwrych. Mae giât mochyn arall yn arwain at lwybr coetir. Cerddwch drwy gae arall a chroeswch gamfa garreg i gyrraedd ffordd y B4228 eto. Trowch i'r chwith ar hyd y ffordd ac i'r chwith eto i lawr Netherhope Lane. Yn dilyn arwydd, trowch i'r dde fel i lawr ffordd gulach a pharhau i lawr llwybr coetir i fynd drwy giât mochyn. Cadwch i'r dde i gerdded yn ymyl cae. Ewch drwy giât fechan wrth ymyl giât fawr, yna trowch i'r dde a cherddwch yn ymyl caeau, gan fynd yn y pen draw rhwng tai i gyrraedd ffordd y B4228 unwaith eto

Trowch i'r dde ar hyd y ffordd, yna i'r chwith i fyny llwybr y tu ôl i dai. (Mae llwybr sydd wedi gordyfu ar y dde yn arwain yn gyflym at olygfan pen clogwyn Wintour's Leap.) Ewch heibio i chwarel wedi'i ffensio, yna mae arwyddbyst a marcwyr yn arwain ymlaen ac, yn y pen draw, mae'r llwybr yn disgyn at giât a ffordd y B4228. Croeswch y ffordd a throwch i'r dde i gerdded i lawr y ffordd. Yn dilyn arwydd, trowch i'r dde drwy giât mochyn, gan ddilyn llwybr sydd wedi'i amgáu gan wal a ffens. Trowch i'r chwith drwy giât mochyn a dilynwch ffens yn ymyl cae. Ewch drwy giât mochyn a throwch i'r dde ar hyd ffordd fynediad, yna i'r chwith rownd cornel wal gerrig uchel. Ewch drwy giât mochyn arall a throwch i'r dde yn ymyl cae. Mae giât mochyn arall yn arwain i lain o goetir, ac yna llwybr trwy gae. Sylwch ar hen dŵr gwylio i'r chwith wrth gerdded i lawr i ffordd.

Trowch i'r dde i lawr y ffordd, croeswch ffordd arall a pharhau i lawr y grisiau. Ewch yn syth i lawr lôn gul wedi'i hamgylchynu gan waliau cerrig. Ar y gwaelod, ewch yn syth ymlaen ar draws Hen Bont Gwy, sef pont addurnedig o haearn bwrw dyddiedig 1816 a elwir hefyd yn Bont Cas-gwent neu'n Bont y Dref. Mae hyn yn mynd â chi o Loegr (Swydd Gaerloyw) i Gymru (Sir Fynwy). I mewn i Gas-gwent, cerddwch yn syth i fyny Bridge Street cyn belled ag Elusendai Powis, yna trowch i'r chwith ar hyd Upper Church Street. Pan gyrhaeddir yr eglwys, trowch i'r dde a dilynwch y ffordd nes bod grisiau'n disgyn i'r chwith. Ewch trwy isffordd o dan ffordd brysur, gan ddod allan wrth gyffordd gyda goleuadau traffig. Trowch i'r dde a dilynwch y ffordd yn syth yn ôl i'r orsaf drenau i orffen.

**Parcio:** Parcio yng ngorsaf drenau Cas-gwent, Nelson Street, Welsh Street, Castle Dell a lleoliadau eraill o amgylch y dref.
**Bysiau:** Mae gwasanaethau bws dyddiol yn cysylltu Cas-gwent â Chasnewydd a Bryste. Mae bysiau lleol yn gwasanaethu Tyndyrn o Gas-gwent a Threfynwy, ac eithrio dydd Sul.
**Trenau:** Mae trenau CrossCountry a Thrafnidiaeth Cymru dyddiol yn gwasanaethu Cas-gwent o Gaerdydd, Cheltenham Spa a Birmingham.




Am fwy o wybodaeth am gynllunio eich taith gerdded, ewch i **www.nationaltrail.co.uk/cy_GB/trails/offas-dyke-path/circular-linear-walks**